Ysgol Gyfun Gymunedol

# Penweddig

## Pecyn gwybodaeth

# Swydd Pennaeth

**Gradd cyflog: L23 - L29**

**(£87,027 - £100,800)**

Dyddiad cau: 9 Chwefror 2025

Cymreictod

Parch

Ymdrech

## SWYDD PENNAETH

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am fynegi diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd uchod yn Ysgol Penweddig.

Mae Ysgol Penweddig yn ysgol flaengar a chyffrous sydd yn dathlu hanner can mlynedd o addysg cyfrwng Gymraeg yng Ngogledd Ceredigion. Gwahoddir ceisiadau gan addysgwyr profiadol sy'n frwdfrydig ac ysbrydoledig i adeiladu ar y dreftadaeth gref hon ac arwain yr ysgol yn gadarn i'r cyfnod nesaf yn ei hanes, a gwireddu'r weledigaeth o ddatblygu ar Gymreictod, Parch, ac Ymdrech.

Mae Penweddig yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol, sydd yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, gydag ystod gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol. Yr ydym yn mwynhau cyfleusterau dysgu o safon uchel iawn mewn adeilad newydd, gyda chaeau chwarae eang a Chanolfan Hamdden wrth law. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng nghalon cymuned gefnogol sy'n croesawu ac yn cael ei bwydo gan ddisgyblion o ysgolion cynradd yr ardal.

Mae'r staff dysgu gofalgar ac ymroddedig yn mwynhau cymorth effeithiol gan dîm gweinyddol cefnogol a phrofiadol, yr Awdurdod Addysg Lleol, a Chorff Llywodraethol gweithgar.

Mae'r staff dysgu a gweinyddol, a'r llywodraethwyr, i gyd yn ymrwymedig i sicrhau dyfodol creadigol, fydd yn arwain at gyrraedd statws uwch i'r ysgol. Dymuniad y Corff Llywodraethol yw penodi pennaeth uchelgeisiol, gyda gweledigaeth glir, sydd:

- â dealltwriaeth gref o addysg gyfrwng Cymraeg, a'r brwdfrydedd i gynnal, hyrwyddo a datblygu ethos Cymreig yr ysgol;
- â gweledigaeth glir am ddatblygiad yr ysgol yn y dyfodol, a'r gallu drwy arwain ac ysbrydoli'r ysgol gyfan i wireddu a gweithredu'r weledigaeth honno;
- â gwybodaeth ddofn o ddatblygiadau addysgiadol ledled Cymru;
- â'r ddawn o gyfathrebu'n effeithiol gyda disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr, a'r gymuned ehangach, er mwyn hyrwyddo a datblygu buddiannau Penweddig;
- yn medru arwain a rheoli staff yn effeithiol, eu hysbrydoli a'u datblygu'n broffesiynol;
- yn medru rheoli cyllid yn effeithiol ag effeithlon;
- yn barod i gydweithio mewn partneriaeth gyda'r AALl, ysgolion cyfagos ac asiantaethau eraill i ddatblygu cynlluniau, e.e. Cynllun Seren, a sefydlu cyrsiau arloesol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion/myfyrwyr 14-19;
- â'r ymrwymiad i sicrhau dilyniant dysgu o'r cynradd drwodd i'r uwchradd;

Hyderaf bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o sefyllfa gyfredol yr ysgol, ynghyd â chyd-destun swydd y Pennaeth.

Os am fwy o wybodaeth, neu drefnu ymweliad â'r ysgol cysylltwch â'r Rheolwr Busnes, Dr Marie Woodling (Ffôn: (01970 639 499, e-bost: woodlingm8@penweddig.ceredigion.sch.uk).

Mae croeso i chi hefyd gysylltu â mi os am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd. Gellir gwneud hynny naill ai drwy ffonio'r ysgol neu drwy e-bost at llywodraethwyr@penweddig.ceredigion.sch.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 9 Chwefror 2025.**

**Cynhelir y cyfweliad yn ystod yr wythnos yn cychwyn 17 Chwefror 2025.**

Yn gywir

*Gareth Davies*

Gareth Davies

Cadeirydd y Corff Llywodraethol

## DISGRIFIAD SWYDD: PENNAETH

Cyflog L23 – L29 (£87,027 - £100,800) (ystyrir codi'r raddfa i ymgeisydd eithriadol)

Mae'r Corff Llywodraethol yn awyddus i benodi Pennaeth brwd, sydd â'r gallu i arwain, ysbrydoli, ac ysgogi cymuned gyfan.

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am bob agwedd o waith Penweddig, gan ddarparu gweledigaeth glir ar gyfer addysg yr ysgol, ynghyd â hybu, hyrwyddo a datblygu ei hethos Cymreig a Chymraeg. Mae'n gyfrifol am greu amgylchedd dysgu cyffrous, ysgogol a chynhyrchiol i'r disgyblion a'r staff, ac am eu morâl a'u lles cyffredinol. Y Pennaeth yw'r swyddog proffesiynol arweiniol yn yr ysgol ac, ynghyd â'r Corff Llywodraethol a'r gymuned ysgol gyfan, mae'n gyfrifol am:

- gyflawni cenhadaeth, creu gweledigaeth a sefydlu cyfeiriad strategol yr ysgol;
- rheoli newid a llunio dyfodol yr ysgol;
- sicrhau llwyddiant a gwelliant i'r ysgol trwy hunan werthuso trylwyr;
- sicrhau dysgu ac addysgu o'r safon uchaf, a safonau cyrhaeddiad uchel;
- darparu cyfle cyfartal i bawb;
- datblygu, gweithredu, monitro a gwella polisïau ac arferion yn barhaus;
- gweithredu o fewn fframwaith o reoliadau a dehongli a chymhwyso deddfwriaeth berthnasol;
- rheoli a threfnu'r ysgol o ddydd i ddydd i sicrhau fod adnoddau, gan gynnwys amgylchedd yr ysgol ac adnoddau dynol, yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a diogel i gyflawni nodau ac amcanion yr ysgol;
- sicrhau ymrwymiad y gymuned ehangach i'r ysgol trwy ddatblygu a chynnal rhwydweithiau effeithiol;
- sicrhau datblygiad proffesiynol ei hun, a datblygiad proffesiynol holl staff yr ysgol;

Mae'r penodiad yn unol ag amodau presennol y ddogfen "Amodau a Thâl Athrawon Ysgol", ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth bresennol arall yn ymwneud ag addysg a chyflogaeth, gan gynnwys safonau proffesiynol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a ddaeth i rym o 1 Medi 2018.

Adolygir y swydd ddisgrifiad yn rheolaidd a gall gael ei newid ar unrhyw adeg yn dilyn ymgynghoriad gyda deilydd y swydd.

Nid yw'r disgrifiad swydd hon yn dangos yr holl dasgau ond mae'n gosod y prif ddisgwyliadau yn unol â chyfrifoldebau deilydd y swydd.

## GWNEUD CAIS AM Y SWYDD

Mae modd gwneud cais am y swydd hon drwy gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion https://careers.ceredigion.gov. uk/cy/featured-careers/addysg/

## CYFWELD

Cynhelir y cyfweliad **yn ystod yr wythnos yn cychwyn 17 Chwefror 2025.**

**Dyddiad cau: 9 Chwefror 2025**

## MANYLEB PERSON

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | • Cymhwyster athro cymwysedig<br>• Addysgwyd i lefel gradd neu gyfatebol<br>• Cymhwyster CPCP, neu brofiad perthnasol fel Pennaeth | |
| HYFFORDDIANT | Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | • Profiad o arwain sesiynau hyfforddiant Mentora neu ddatblygu staff |
| PROFIAD | Tystiolaeth o:<br>• Addysgu llwyddiannus<br>• Arwain a rheoli blaengareddau ysgol gyfan<br>• Arwain a rheoli tîm<br>• Arwain a rheoli newid<br>• Ysbrydoli a datblygu staff a disgyblion<br>• Cynllunio strategol<br>• Gwella dysgu ac addysgu<br>• Defnyddio data i godi safonau<br>• Rheolaeth Cyllid Ysgol<br>• Gweithio gyda rhieni fel partneriaid mewn dysgu<br>• Delio gyda materion personol sensitif a dwys ac o ddod o hyd i strategaethau a datrysiadau i broblemau cysylltiedig | • Ymwneud ag anogi dysgu<br>• Rheoli neu weithredu prosesau hunan werthuso<br>• Rheoli Perfformiad<br>• Gweithio mewn partneriaeth â'r:<br>  • darparwyr allanol<br>  • gymuned<br>  • llywodraethwyr<br>  • ymgynghorwyr/swyddogion yr AALl |
| GWYBODAETH | • Materion cysylltiedig ag Addysg yng Nghymru, yn arbennig yn y maes polisi a gweithredu<br>• Datblygiadau diweddaraf o ran y cwricwlwm ac Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol<br>• Y berthynas rhwng addysgu a dysgu effeithiol ac arfer dda o ran asesu<br>• Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol<br>• Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd<br>• Cyflogaeth a rheolaeth staff ynghyd â materion personél<br>• Camau a phrosesau Amddiffyn Plant Prosesau disgyblu ar draws ysgol | • Gweithredu prosesau asesu yn llwyddiannus<br>• Rheolaeth Iechyd a Diogelwch<br>• Cysylltiadau gweithredol rhwng hyrwyddo'r strategaeth cynhwysiant trwy gyfrwng y cwricwlwm<br>• Polisi a gweithrediad o ran cynhwysiant<br>• Systemau rheoli a monitro presenoldeb<br>• Prosesau yn ymwneud â Llais y Disgybl<br>• Prosesau pontio a chyfathrebu rhwng CA2 a CA3 er mwyn gwella cynnydd disgyblion |

| | | |
|---|---|---|
| SGILIAU | • Y gallu i ysbrydoli ac ysgogi cymuned gyfan<br>• Sgiliau personol a rhyngbersonol ardderchog<br>• Y gallu i gyfathrebu'n dda - safonau uchel yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg<br>• Gweinyddu'n dda<br>• Rheoli a gweithio o fewn terfynau amser<br>• Y gallu i orffen tasgau ac i gael y maen i'r wal yn llwyddiannus<br>• Sgiliau TGCh da<br>• Y gallu i ddangos blaengaredd ac i weithio'n annibynnol ac yn rhan o dîm | • Hyrwyddo a marchnata'r ysgol |
| CYMWYSEDDAU | • Hyrwyddo Addysg Gymraeg a Chymreig yn rymus<br>• Gweledigaeth<br>• Bod yn flaengar a rhagweithiol<br>• Y gallu i ennyn ymddiriedaeth a hyder<br>• Disgwyliadau uchel o'i hunan ac eraill<br>• Y gallu i adeiladu a chynnal perthnasau gweithio adeiladol<br>• Ymroddiad i welliant parhaol a chodi safonau<br>• Y gallu i fod yn bositif a brwd o dan wasgedd<br>• Y gallu i drefnu gwaith a chynllunio'n effeithiol | |
| ERAILL | • Cofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg<br>• Cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth<br>• Gwiriad "DBS Enhanced Child" | |

## CEFNDIR CRYNO

- Mae Ysgol Penweddig yn rhoi pwyslais ar yr iaith Gymraeg a chynnal ethos Cymreig. Credwn fod sefydlu hunaniaeth ddwyieithog gref yn darparu'r sail i ddatblygu ymagwedd agored ac eangfrydig ymhlith y disgyblion.
- Mae 587 disgybl yn yr ysgol.
- Mae o leiaf 13 ysgol gynradd yn bwydo'r ysgol.
- Mae ychydig dros hanner o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi lle siaredir dim neu ond ychydig o Gymraeg.
- Mae proffil ieithyddol corff y rhieni yn adlewyrchu proffil ieithyddol y plant.
- Mae'r canran o giniawau rhad yn isel.
- Polisi iaith a chwricwlwm yr ysgol:
  - Addysgir ac asesir y cwricwlwm Saesneg yn Saesneg.
  - Addysgir Gwyddoniaeth a Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ers Medi 2022, addysgir y disgyblion sydd yn trosglwyddo yn unol â chyfrwng y ddarpariaeth yn eu hysgolion cynradd.
  - Addysgir ac asesir pob pwnc arall trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dychwela tua 55 – 60% o ddisgyblion i'r chweched dosbarth.
- Mae gan yr ysgol draddodiad o lwyddiant academaidd ardderchog.
- Ymrwyma'r ysgol i ddarparu addysg gyflawn ar gyfer ei disgyblion. Gwêl yr ysgol berthynas gref rhwng astudiaethau academaidd a rhaglen gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol.
- Medda'r ysgol ar draddodiad balch a nodedig mewn sawl maes gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, chwaraeon, y meysydd creadigol, gwaith gwirfoddol a dyngarol.
- Mae lleoliad yr ysgol ac adnoddau'r gymuned leol yn cyfrannu yn sylweddol iawn at yr hyn all gael ei gynnig yn addysgiadol ac yn allgyrsiol e.e. dosbarthiadau meistr (Prifysgol); Gweithdai Celf (Canolfan y Celfyddydau).
- Darparwyd yr adeilad a'r safle presennol drwy gynllun PFI. Mae cost yr adeilad a'r safle yn cael ei reoli o dan gytundeb rhwng Cyngor Sir Ceredigion a NewSchools (Penweddig). Sefydlwyd y cytundeb yn 2000 ac mae'n parhau dros gyfnod o 30 mlynedd. Y cytundeb PFI sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad a'r safle ynghyd â'r gwasanaeth arlwyo a glanhau. Rheolir y gwasanaethau gan Sodexo.
- Ysgol lwyddiannus yw Penweddig, sy'n tyfu ac yn datblygu. Mae'r cyfleusterau modern yn gymorth i alluogi'r disgyblion brofi llwyddiant yn y meysydd academaidd, chwaraeon a diwylliannol yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## CEREDIGION AC ABERYSTWYTH

### CEREDIGION



Sir arfordirol yng ngorllewin Cymru yw Ceredigion, sydd â phoblogaeth o tua 73,050 (2024-ONS). Mae iddi dirwedd odidog sy'n ymestyn o Fynyddoedd y Cambrian i'r arfordir ysblennydd ym Mae Ceredigion. Mae ei threfi sirol a'i phentrefi cefn gwlad yn frith o ddiwylliant a hanes.

Mae economi'r sir yn bennaf ddibynnol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a bwyd, ond ceir hefyd sectorau arwyddocaol eraill megis addysg uwch, gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu.

### ABERYSTWYTH



Aberystwyth yw tref fwyaf Ceredigion. Tref hanesyddol ydyw, a ddaeth yn gyrchfan glan-môr yn oes Fictoria. Mae'n gartref i Brifysgol (un o golegau sylfaenol Prifysgol Cymru), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r dref wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru a'r iaith Gymraeg. Yma yn Aberystwyth, dros 80 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru, ac yma hefyd yn 1963 cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – protest Pont Trefechan.



Mae nifer o leoliadau i fwynhau perfformiadau theatr, ffilm, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol, yn ogystal â chwaraeon. Mae amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd bwyta. Mae marchnad ffermwyr Aberystwyth wedi ei chydnabod fel un o'r goreuon ym Mhrydain.

Yn lleol ceir nifer o lwybrau beicio a chanolfannau gweithgareddau awyr agored, fel Nant yr Arian.

Gyda phoblogaeth o tua 14,640, mae Aberystwyth yn le braf i fyw, astudio, gweithio ac i fagu teulu.